# CYNGOR CYMUNED ***LLANWINIO*** COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fercher 18fed o Fawrth 2020 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cyng H James, W Evans, P Walton, D Lewis, G Evans a K Bowen(clerc)

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng R Gallie, J Phillips a J Lewis (CSC)

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 15fed o Ionawr a derbyniwyd hwy yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:**

W Evans – Eitem 10 Rhoddion

**MATERION YN CODI:**

Mae'r cyfarpar teliffon wedi ei symud o giosc Blaenwaun.

Mae R Davies wedi cytuno i ymgymryd yr archwiliad mewnol am 2019/20.

**NEWID ARWYDDWYR:**

Gwnaeth y Cyngor gymeradwyo ychwanegu Cyng R Gallie fel arwyddwr banc a dileu D Evans.

**GOHEBIAETH:**

Gwnaeth y Cyngor gymeradwyo derbyn cynnig oddi wrth Cadw Cymru'n Daclus am becyn rhad cychwyn garddio.

Cynigodd CFFI Sir Gar dau docyn i'r Rali Ffermwyr Ifanc i'w gynnal ar 9fed o Fai – gohiriwyd yn hwyrach oherwydd Coronafeirws.

Gwnaeth J King hysbysu'r Cyngor ei bod ddim pellach eisiau rhenti tir cyngor ar ol i'w cytundeb presennol orffen ar 30fed o Fawrth 2020. Gohiriodd y Cyngor wneud unrhyw benderfyniad ynglyn a defnydd o'r tir i'r dyfodol.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| J King – rhent tir cyngor | £161.87 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| SSE – trydan neuadd gymuned 25/10/19-24/01/2020 | £101.11 |
| Swyddfa Archwilio Cymru – archwilio cyfrifon 2018/19 | £250.75 |
| Dŵr Cymru – cae chwarae Blaenwaun 12/07/19-03/02/2020 | £15.85 |
| K Bowen – cyflog y clerc 2019/20 | £1120.00 |
| HMRC – PAYE 2019/20 | £280.00 |
| Un Llais Cymru - aelodaeth 2020/21 | £68.00 |

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

Cyfrif Busnes £3754.74

Cyfrif Trysorydd £6529.97

Gwnaeth y Cyngor nodi fod y bil am y golau stryd (£1114.13) yn ddyledus cyn diwedd y mis ac unrhyw roddion y penderfynant roddi. Cymeradwyodd y Cyngor neilltuo £7000.00 ar gyfer offer chwarae newydd yn cae chwarae Blaenwaun.

**RHODDION:**

(Gwnaeth Cyng W Evans ddatgan diddordeb yn y rhodd i'r Cardi Bach a cymerodd ddim rhan yn y drafodaeth)

Cymeradwyodd y Cyngor rhodd o £250.00 i bapur gymunedol y Cardi Bach.

Cadarnhaodd y Cyngor rhodd o £250.00 i Ysgol Bro Brynach a oedd wedi ei gymeradwyo yn gynt.

**CYNLLUNIO:** Dim

U.F.A.

Codwyd nifer o broblemau efo priffyrdd – clerc i hysbysu adran Briffyrdd

Twll yn yr heol ar waelod Rhiw Elwyn

Eisiau gwneud lle i ddwr redeg i mewn i'r ffos rhwng Heol Shon a Maes y Lan

Eisiau torri'r clawdd n'ol o'r cornel islaw croesffordd Passby tuag at cyffordd T Llanfyrnach.

Gan fod na ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganodd y cyfarfod ar gau.

**Mae'r cyfarfod nesaf fod gael ei gynnal ar nos Fercher 20fed o Fai yn Neuadd Gymuned Llanwinio am 8.00yh ond oherwydd cyfyngiadau Covid19 (Coronafeirws) fe wnaiff y clerc gadarnhau os fydd hyn yn bosibl yn agosach i'r dyddiad.**